# Sylw i Symptom

# Adran Dermatoleg

**Beth yw Sylw i Symptom?**

Nid oes gan gleifion Sylw i Symptom ddyddiad penodol ar gyfer apwyntiad arferol. Yn lle hynny, gallant gysylltu â'r Uned Dermatoleg **o fewn chwe mis** os bydd eu cyflwr yn gwaethygu. Os bydd eich clefyd croen yn dod yn anodd ei reoli neu os nad yw eich triniaeth yn gweithio, byddwn yn trefnu i chi gael eich gweld yn yr apwyntiad clinig nesaf sydd ar gael.

Nodwch – Nid yw'n wasanaeth brys.

**A fyddaf yn gallu gweld fy Meddyg Teulu o hyd ynghylch fy nghlefyd y croen?**

Byddwch, byddwch yn gallu gweld eich Meddyg Teulu o hyd a chael cyflenwadau parhaus o'ch eliau presennol yn ôl yr angen. Nid yw'r adran Dermatoleg yn darparu gwasanaeth presgripsiwn rheolaidd ar gyfer eich eliau.

**E-bost: abb.derm@wales.nhs.uk**

Sicrhewch eich bod yn cynnwys eich enw, eich dyddiad geni/rhif ysbyty a neges fer.

Neu

**Ffôn: 01633 656362**

Gadewch eich enw, eich dyddiad geni/rhif ysbyty, eich rhif ffôn a neges fer.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English.**